

LLAIS PEDR

BLAENORIAETHAU YSGOL 26/27 SCHOOL PRIORITIES 26/27

Yn Ysgol Bro Pedr, rydym yn parhau i ymdrechu i wella a datblygu yn ein gweledigaeth i fod yn ysgol ragorol. Fel ysgol rydym yn adolygu'n gyson ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg a'r profiadau gorau oll yn Ysgol Bro Pedr. Trwy broses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol, rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant. Mae ein Cynllun Datblygu Ysgol yn nodi blaenoriaethau yr ydym am eu cyflawni dros y flwyddyn academiaidd yma. Hoffem rannu ein blaenoriaethau gyda chi ac egluro beth rydym yn ei wneud i gyflawni'r rhain, a sut y gallwch gefnogi'r ysgol i gyflawni ein nodau. Dyma ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon:



At Ysgol Bro Pedr, we continue to strive to improve and develop in our vision to become an exceptional school. As a school we are constantly reviewing where we are as a school and how we can continually improve to ensure that your child has the very best education and experiences at Ysgol Bro Pedr. Through a process of continuous self-evaluation and review across the school, we identify our key priorities for improvement. Our School Development Plan sets out priorities that we want to achieve over the academic year. We would like to share our priorities with you and explain what we are doing to achieve these, and how you can support the school to meet our goals. Here are our key priorities for this academic year:



BLAENORIAETHAU 26/27

1

Gwreiddio ymarfer perthynol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac agweddau at ddysgu.

Embed relational practice in order to have a positive impact on attendance and learners' attitudes towards learning.

2

Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a'r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion

Ensure consistency in the quality of feedback on work and the level of challenge, in order to have a positive impact on the standard of pupils' work.

3

Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus

Increase the incidental use of Welsh in English-medium lessons in order to encourage pupils to use Welsh more confidently.



Ysgol
Bro Pedr

BLAENORIAETHAU YSGOL 26/27

SCHOOL PRIORITIES 26/27

SUT FEDRWCH CHI FEL RHIENTI/GWARCHIEDWAID GYFRANNU AT Y BLAENORIAETHAU?

- Pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb
- Cyfathrebu'n rheolaidd
- Osgoi tynnu plant allan o'r ysgol
- Trefnu apwyntiadau o gwmpas diwrnod ysgol
- Mynychu nosweithiau rhieni
- Darllen ar y cyd a hyrwyddo manteision darllen i les cyffredinol
- Annog y disgybl i ddarllen er mwyn cyfoethogi geirfa ac i ysbrydoli syniadau creadigol
- Ymweld â llyfrgelloedd lleol i bori trwy wahanol genres o lyfrau
- Annog disgyblion i ddatblygu sgiliau sillafu trwy gemau neu dasgau cyffredinol yn y cartref (e.e. ysgrifennu rhestrau siopa)
- Annog y disgybl i ddysgu, sillafu a datblygu geirfa cyfoethog
- Annog y disgybl i drafod materion cyfoes, bywyd bob dydd sy'n codi'n naturiol mewn sgwrs sydd o ddiddordeb i'r disgybl
- Cymhwyso cysyniadau a sgiliau mathemategol i ystod o sefyllfaoedd ymarferol a bywyd go iawn ac mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.
- Mynychu sesiynau Sgwrs gyda'r Pennaeth ar ddydd Mawrth, 3:30-5:30yp, os oes unrhyw adborth adeiladol i wella'r ysgol ymhellach
- Rhoi adborth gonest ac adeiladol pan yn rhan o sgysiau a holiaduron gwerthuso
- Annog eich plentyn i rannu eu teimladau a'u syniadau gyda chi am yr ysgol
- Annog eich plentyn i ymuno â un o'r fforymau



“
READING IS THE
GATEWAY FOR
CHILDREN THAT
MAKES ALL OTHER
LEARNING POSSIBLE.
”

Barack Obama

Students write best when
they write often and for
an extended period of
time.

When given time,
students will grow
and learn as writers.

LEADERSHIP
IS AN
ACTION

NOT A
POSITION

**NUMERACY
IS NOT JUST ABOUT
NUMBERS**

“VOICE AND CHOICE
CAN ALLOW STUDENTS
TO EXPLORE THEIR
PASSIONS AND FEEL
HONORED FOR THEIR
IDEAS AND OPINIONS”
-ANDREW MILLER

BLAENORIAETHAU YSGOL 26/27

SCHOOL PRIORITIES 26/27

HOW CAN YOU AS PARENTS/GUARDIANS HELP US TO ACHIEVE THESE PRIORITIES?

- Emphasise the importance of school attendance
- Regularly communicate with teachers and address any concerns
- Avoid taking your child out of school
- Organise appointments around a school day
- Ensure you phone/send a letter to explain any absences
- Encouraging pupils to read widely in order to develop reading skills and expand vocabulary
- Reading together and promoting the benefits of reading to general wellbeing
- Visiting local libraries to browse different genres of books
- Encouraging pupils to develop spelling skills through games or general tasks in the home (e.g. writing shopping lists)
- Liaising with the school regarding any concerns relating to literacy skills acquisition
- Encourage your child to read to enrich vocabulary and to inspire creative ideas.
- Encourage your child to learn, spell and develop a rich vocabulary
- Build learning activities into everyday habits
- Promote a positive attitude towards numeracy; using everyday practices that offer many opportunities and experiences to practice and apply their numeracy skills in real and meaningful ways
- Attend Headteacher Surgeries on Tuesdays, if there is any constructive feedback to further improve the school
- Attend parents evenings
- Give honest and constructive feedback when part of conversations and evaluation questionnaires
- Encourage and assist your child in participating in student-led clubs or activities that focus on improving pupil voice e.g a forum or Senedd Bro Pedr
- Encourage your child to share their thoughts and ideas with you about how to make the school better
- Teach your child the importance of taking responsibility for their education and the role they play in making the school a better place



“
READING IS THE
GATEWAY FOR
CHILDREN THAT
MAKES ALL OTHER
LEARNING POSSIBLE.
”

Barack Obama

Students write best when
they write often and for
an extended period of
time.


When given time,
students will grow
and learn as writers.

LEADERSHIP
IS AN
ACTION

NOT A
POSITION

**NUMERACY
IS NOT JUST ABOUT
NUMBERS**

“VOICE AND CHOICE
CAN ALLOW STUDENTS
TO EXPLORE THEIR
PASSIONS AND FEEL
HONORED FOR THEIR
IDEAS AND OPINIONS”
-ANDREW MILLER



Mae wedi bod yn braf iawn gweld ein disgyblion newydd yn ymgartrefu mor dda ac yn dod yn rhan annatod o gymuned Ysgol Bro Pedr. Rydym yn falch iawn o'r ffordd y maent wedi dechrau ar eu taith gyda ni.

Hoffem wahodd rhieni a gofalwyr newydd i'n Noson Wybodaeth, a gynhelir am 5.00yh ddydd Mawrth, 15fed o Fedi drwy Microsoft Teams. Gellir cael mynediad i'r cyfarfod drwy sganio'r cod QR ar y poster.

Bwriad y noson yw rhannu gwybodaeth bwysig am Bromcom, My Child At School (MCAS), Hwb, Microsoft Teams, cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, presenoldeb, lles, anghenion dysgu ychwanegol a bydd cyfle i ofyn cwestiynau

Mae'r sesiwn yn gyfle gwych i ddeall y systemau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'ch plentyn, yn ogystal â sicrhau eich bod yn teimlo'n hyderus wrth gefnogi eu haddysg yn ein hysgol.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar-lein nos Fawrth.

Bydd eich presenoldeb a'ch cefnogaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.



It has been wonderful to see our new pupils settling in so well and becoming an integral part of our Ysgol Bro Pedr community. We are very proud of the way they have started their journey with us.

We would like to invite new parents and carers to our Information Evening, which will be held at 5:00pm on Tuesday, 15th September via Microsoft Teams. You can access the meeting by scanning the QR code on the poster.

The aim of the evening is to share important information regarding Bromcom, My Child At School (MCAS), Hwb, Microsoft Teams, school-home communication, attendance, well-being, additional learning needs and there will also be an opportunity to ask questions.

The session is a great opportunity to understand the systems and support available to your child, as well as to ensure you feel confident in supporting their education at our school.

We look forward to welcoming you online on Tuesday evening.

Your attendance and support will be greatly appreciated.

NOSON WYBODAETH

RHIENI NEWYDD

GWYBODAETH

- MY CHILD AT SCHOOL
- TEAMS
- CYFATHREBU
- HWB
- PRESENOLDEB / LLES / ADY
- CWESTIYNAU

CLICIWCH Y DDOLEN ISOD

<https://teams.microsoft.com/meet/370055750613910?p=wQ59zVokzo7rQ5efBU>



SCAN HERE

15.09.26

YSGOL
BRO PEDR

Ysgol Bro Pedr

Caredigrwydd
Kindness

Gonestrwydd
Honesty

A fo ben bid bont

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

INFORMATION EVENING

NEW PARENTS

INFORMATION

- MY CHILD AT SCHOOL
- TEAMS
- COMMUNICATION
- HWB
- ATTENDANCE / WELL BEING
- QUESTION AND ANSWER

CLICK OR SCAN BELOW

<https://teams.microsoft.com/meet/370055750613910?p=wQ59zVokzo7rQ5efBU>



SCAN HERE

15.09.26

YSGOL
BRO PEDR

Ysgol Bro Pedr

Caredigrwydd
Kindness

Gonestrwydd
Honesty

A fo ben bid bont

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont

SGERTIAU YSGOL SCHOOL SKIRTS

Hoffem atgoffa disgyblion a rhieni/gofalwyr o'n disgwyliadau o ran gwisg ysgol.

Dylid gwisgo sgertiau ysgol o hyd priodol ar gyfer yr ysgol. Rydym wedi sylwi bod rhai sgertiau, yn enwedig sgertiau Lycra, yn cael eu gwisgo'n eithriadol o fyr. Os na ellir gwisgo'r sgertiau hyn o hyd priodol, nid ydynt yn addas fel rhan o'n gwisg ysgol.

Gofynnwn i rieni/gofalwyr ein cefnogi drwy sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn gwisgo'r wisg ysgol gywir a bod sgertiau o hyd addas drwy gydol y diwrnod ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

We would like to remind pupils and parents/carers of our expectations regarding school uniform.

School skirts should be worn at an appropriate length for school. We have noticed that some skirts, particularly Lycra/stretch-style skirts, are being worn extremely short. If these skirts cannot be worn at an appropriate length, they are not suitable as part of our school uniform. We ask parents/carers to support us by ensuring that pupils arrive at school wearing the correct uniform and that skirts are of a suitable length throughout the school day.


Thank you for your continued support.





STORI OLIVIA – DIOGELWCH GYRWRYR IFANC

OLIVIA'S STORY – YOUNG DRIVER SAFETY



Daeth PC Hannah i'r ysgol ddydd Gwener i gyflwyno Prosiect Olivia i ddisgyblion Blwyddyn 12, gan rannu negeseuon pwysig a rhoi cyngor gwerthfawr am ddiogelwch gyrwyr ifanc.

Mae dechrau Blwyddyn 12 yn gyfnod cyffrous, gyda llawer o'n disgyblion yn dechrau dysgu gyrru neu'n teithio gyda ffrindiau sydd newydd basio eu prawf. Roedd y sesiwn felly'n gyfle amserol i ystyried y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â gyrru, a phwysigrwydd gwneud dewisiadau diogel a chyfrifol.

Diolch yn fawr i PC Hannah am sesiwn werthfawr, ac am addysgu ac annog ein disgyblion i wneud dewisiadau cyfrifol er mwyn cadw eu hunain a'i gilydd yn ddiogel ar y ffyrdd.

PC Hannah visited the school on Friday to deliver Project Olivia to our Year 12 pupils, sharing important messages and valuable advice about young driver safety.

Starting Year 12 is an exciting time, with many of our pupils beginning to learn to drive or travelling with friends who have recently passed their test. The session was therefore a timely opportunity to consider the responsibilities that come with driving and the importance of making safe and responsible choices.

Thank you to PC Hannah for a valuable session, educating and encouraging our pupils to make responsible choices to keep themselves and each other safe on the roads.



YMWELIAD I'N SENEDD A VISIT TO OUR SENEDD



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ar 8fed o Fedi 2026, cafodd disgyblion Blwyddyn 13 y cyfle i ymweld â'r Senedd yng Nghaerdydd fel rhan o'u hastudiaethau a'u paratoadau ar gyfer y Prosiect Unigol yn y Fagloriaeth.

Dechreuodd y diwrnod gyda thaith dywys ddiddorol o amgylch y Senedd, lle bu'r disgyblion yn archwilio nifer o rannau pwysig o Senedd Cymru. Ymwelwyd â'r ystafelloedd pwyllgor, lle mae Aelodau o'r Senedd yn craffu ar ddeddfwriaeth ac yn trafod materion sy'n effeithio ar Gymru, yn ogystal ag ystafelloedd trafod a chyfarfod a ddefnyddir ar gyfer busnes seneddol. Rhoddodd y daith gipolwg gwerthfawr ar sut mae democratiaeth yn gweithredu yng Nghymru a dealltwriaeth ddyfnach o waith y Senedd.

Wedi'r daith, aeth y disgyblion ymlaen i'r Ganolfan Addysg ar gyfer sesiwn addysgiadol yn canolbwyntio ar y Prosiect Unigol.

Pwysleisiodd y gweithdy bwysigrwydd dewis pwnc neu gwestiwn ymchwil addas a diddorol, gan helpu'r disgyblion i ddeall sut y gall eu dewis ddylanwadu ar lwyddiant eu prosiect.

Cafodd y disgyblion hefyd eu cyflwyno i ffyrdd effeithiol o gynnal ymchwil, gyda phwyslais arbennig ar adnabod ffynonellau dibynadwy a chredadwy. Dangosodd y sesiwn sut y gellir defnyddio gwefan y Senedd i gael mynediad at wybodaeth, adroddiadau ac erthyglau dibynadwy a all gefnogi ymchwil annibynnol ac ymchwilio academiaidd.

Roedd yr ymweliad yn un addysgol ac ysbrydoledig, gan ddarparu sgiliau a gwybodaeth werthfawr a fydd yn cefnogi'r disgyblion wrth iddynt gwblhau eu Prosiect Unigol.

On 8th September 2026, Year 13 students had the opportunity to visit the Senedd in Cardiff as part of their studies and preparation for their Individual Project in the Welsh Baccalaureate.

The day began with a fascinating guided tour of the Senedd, where students explored a range of important areas within the Welsh Parliament. They visited the committee rooms, where Members of the Senedd scrutinise legislation and discuss key issues affecting Wales, as well as several discussion and meeting rooms used for parliamentary business. The tour provided an excellent insight into how democracy operates in Wales and gave students a greater understanding of the work carried out within the Senedd.

Following the tour, students moved to the Education Centre for an informative session focused on the Individual Project. The workshop highlighted the importance of selecting an appropriate and engaging topic or research question, helping students to consider how their choice can influence the success of their project.

Students were also introduced to strategies for carrying out effective research, with a particular emphasis on identifying reliable and trustworthy sources. The session demonstrated how the Senedd website can be used to access credible information, reports and articles that can support independent research and academic investigation.

The visit was both educational and inspiring, providing students with valuable skills and knowledge that will support them throughout their Individual Project.



LLUNIAU YSGOL SCHOOL PHOTOS



Hoffem ddiolch yn fawr i'n disgyblion, rhieni/gofalwyr a'n staff am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod sesiynau tynnu lluniau'r ysgol yr wythnos hon.

Tynnwyd lluniau unigol o ddisgyblion Blwyddyn 7, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12, ynghyd â lluniau dosbarth ein disgyblion Blwyddyn 7. Roedd yn braf iawn gweld pawb yn ymddangos mor smart ac yn cynrychioli Ysgol Bro Pedr gyda balchder.

Diolch i bawb am sicrhau bod y diwrnod wedi rhedeg yn hwylus ac yn effeithlon.

Byddwn yn rhannu'r lluniau gan Colorfoto gyda disgyblion a theuluoedd cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus. Roedd yn wych gweld ein disgyblion yn edrych mor daclus ac yn gwneud argraff arbennig.

colorfoto

photography • design • marketing

We would like to thank our pupils, parents/carers, and staff very much for your cooperation and support during the school photo sessions this week.

Individual photographs were taken of Year 7, Year 10, and Year 12 pupils, alongside class photos for our Year 7 pupils. It was wonderful to see everyone looking so smart and representing Ysgol Bro Pedr with pride.

Thank you to everyone for ensuring the day ran smoothly and efficiently.

We will share the photographs from Colorfoto with pupils and families as soon as we receive them.

Thank you once again for your continued support. It was great to see our pupils looking so smart and making such a positive impression.

CLYWELIADAU SCHOOL OF ROCK SCHOOL OF ROCK AUDITIONS

Roedd dydd Gwener yn ddiwrnod prysur a chyffrous wrth i ddisgyblion gymryd rhan mewn clyweliadau ar gyfer ein cynhyrchiad ysgol o School of Rock, a fydd yn cael ei llwyfannu ym mis Rhagfyr. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at gael gwybod pwy sy'n cael y prif rannau ac at weld y cynhyrchiad yn dod at ei gilydd dros yr wythnosau nesaf. Cofiwch, mae croeso i bob disgybl ymuno â'r cast, felly mae cyfle o hyd i gymryd rhan a bod yn rhan o sioe sy'n argoeli i fod yn wych.

Cadwch y dyddiadau yma'n rhydd – 8fed, 9fed a'r 10fed o Ragfyr.

Bydd rhagor o wybodaeth am ymarferion a gwerthiant tocynnau yn cael ei rhannu cyn bo hir.

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld School of Rock ar ein llwyfan!



Friday was a busy and exciting day as pupils auditioned for our school production of School of Rock, which will be taking place in December. We are all looking forward to finding out who will be cast in the main roles and seeing the production come together over the coming weeks.

Remember, all pupils are welcome to join the cast, so there is still an opportunity to get involved and be part of what promises to be a fantastic show.

Please save these dates – 8th, 9th and 10th of December.

Further information regarding rehearsals and the sale of tickets will be shared soon.

We can't wait to see School of Rock take to the stage!

SALON BRO PEDR

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd newydd, hoffem estyn croeso cynnes i bawb i Salon Bro Pedr.

Ydych chi'n chwilio am drin gwallt o safon mewn amgylchedd cyfeillgar, croesawgar a phroffesiynol?

Yn Salon Bro Pedr, mae ein dysgwyr talentog ar gyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 Trin Gwallt yn darparu amrywiaeth o wasanaethau trin gwallt o dan oruchwyliaeth ac arweiniad ein tiwtor profiadol, Mrs Rhian Hughes. Mae'r salon yn rhoi cyfle gwerthfawr i'n disgyblion ddatblygu eu sgiliau ymarferol, magu hyder a chael profiad go iawn o'r gweithle wrth weithio gyda chleientiaid.

O dorri a steilio i liwio a gosod gwallt, mae ein dysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Mae pob apwyntiad yn cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer gyrfaedd llwyddiannus yn y diwydiant trin gwallt a harddwch.

Drwy gefnogi Salon Bro Pedr, rydych nid yn unig yn derbyn gwasanaeth gwych, ond hefyd yn helpu ein disgyblion Lefel 2 a Lefel 3 i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu gyrfaedd yn y dyfodol.

Diolch am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Salon Bro Pedr yn fuan!



As the new academic year begins, we would like to extend a warm welcome to everyone at Salon Bro Pedr.

Are you looking for high-quality hairdressing in a friendly, welcoming, and professional environment?

At Salon Bro Pedr, our talented learners on Level 2 and Level 3 Hairdressing courses provide a range of hairdressing services under the supervision and guidance of our experienced tutor, Mrs. Rhian Hughes. The salon offers our students a valuable opportunity to develop practical skills, build confidence and gain real-world workplace experience while working with clients.

From cutting and styling to colouring and setting, our learners take pride in their work and are committed to providing a high-quality service. Every appointment contributes to their professional development and helps prepare them for successful careers in the hairdressing and beauty industry.

By supporting Salon Bro Pedr, you not only receive a fantastic service but also help our Level 2 and Level 3 students develop the skills and experience they need to succeed in their future careers.

Thank you for your support. We look forward to welcoming you to Salon Bro Pedr soon!

LLWYDDIANT ANNIE THOMAS CONGRATULATIONS ANNIE THOMAS



Llongyfarchiadau mawr i Annie Thomas, blwyddyn 12 a'i cheffyl, Wyken Sweet Silhouette, sydd wedi sicrhau lle yng nghystadleuaeth fawreddog y 'Horse of the Year Show' ym mis Hydref. Cymhwysodd Annie a'i cheffyl yn ystod gwyliau'r haf ar ôl perfformiadau rhagorol.

Mae hon yn gamp arbennig iawn ac yn dyst i ymroddiad, gwaith caled a thalent Annie. Dymunwn bob lwc iddi hi a Wyken Sweet Silhouette wrth iddynt gystadlu ar lwyfan cenedlaethol. Pob dymuniad da i Annie yn mis Hydref.

Congratulations to Annie Thomas in Year 12 and her pony, Wyken Sweet Silhouette, who will be competing at the prestigious Horse of the Year Show in October after qualifying during the summer holidays.

This is a fantastic achievement and reflects Annie's dedication, hard work, and talent. We wish Annie and Wyken Sweet Silhouette the very best of luck as they compete on a national stage. Everyone at Ysgol Bro Pedr is extremely proud of her success and looks forward to hearing how she gets on at the show.

CYNRYCHIOLI CEREDIGION REPRESENTING CEREDIGION



Llongyfarchiadau i nifer o'n bechgyn Blwyddyn 11 am gynrychioli tîm Rygbi Ysgolion Ceredigion yn wych unwaith eto nos Wener, wrth i Geredigion sicrhau buddugoliaeth gwych o 24-19 yn erbyn Ysgolion Caerfyrddin. Roedd yn wych gweld eu dyfalbarhad, eu hymrwymiad a'u gwydnwch. Rydym yn arbennig o falch bod gan Ysgol Bro Pedr gynrychiolaeth mor gryf yn y garfan, gan amlygu talent ac ymroddiad ein chwaraewyr rygbi ifanc.

Llongyfarchiadau arbennig yn i Dion Jacob a Jay Williams, a groesodd y llinell gais a'r ddau ohonynt yn gwneud cyfraniadau sylweddol i lwyddiant y tîm. Rydym hefyd wrth ein bodd bod Gruff Roderick wedi ei enwi'n haeddiannol yn Chwaraewr y Gêm am ei berfformiad rhagorol ar y cae.

Da iawn i'n holl ddisgyblion a gynrychiolodd Geredigion gyda balchder. Edrychwn ymlaen at ddilyn eu llwyddiant parhaus ar y cae rygbi ac oddi arno. Llongyfarchiadau i chi gyd!



Congratulations to several of our Year 11 boys who proudly represented Ceredigion Schools Rugby again on Friday evening as Ceredigion secured an impressive 24-19 victory over Carmarthen Schools. It was fantastic to see their determination, commitment and resilience.

We are especially proud that Ysgol Bro Pedr had such a strong representation within the squad, highlighting the talent and dedication of our young rugby players.

A special congratulations goes to Dion Jacob and Jay Williams, who both crossed the try line and made significant contributions to the team's success. We are also delighted that Gruff Roderick was deservedly named Man of the Match for his outstanding performance on the field.

Well done to all of our pupils who represented Ceredigion with pride. We look forward to following their continued success both on and off the rugby pitch.

Llongyfarchiadau i chi gyd!

CHWARAEON/SPORT

IACH AC HYDERUS



RYGBI BLWYDDYN TÎM HÛN / SENIOR RUGBY - ENNILL 50 - 0 (WIN)
SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - LLYR JONES



HOCI HÛN / SENIOR HOCKEY - ENNILL
SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - MAISIE MCCOWAN





PÊL RWYD BLWYDDYN 10/ YEAR 10 NETBALL - ENNILL
SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - AMELIA LOVELL



HOCI BLWYDDYN 9/ YEAR 9 HOCKEY - ENNILL
SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - MACEY GUDGEON





RYGBI BLWYDDYN 8/ YEAR 8 RUGBY - ENNILL 25-5 (WIN)

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - LLEW WILLIAMS



RYGBI BLWYDDYN 10/ YEAR 10 RUGBY - ENNILL 45 - 38 (WIN)

SEREN Y GÊM / PLAYER OF THE MATCH - RHEINALLT DAVIES



CRHA - DEWCH I GEFNOGI PTA - WE NEED YOUR HELP

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

Dewch i ymuno â ni!
Come and join us! 

CRHA / PTA Bro Pedr

CYFARFOD CYNTAF | FIRST MEETING



**Dydd Mawrth
15.09.2026**

Tuesday 15th September



6:00yh

6:00pm



Campws Cynradd

Primary Campus



**Cwrdd â rhieni
a staff eraill**

Meet other
parents and staff



Rhannu syniadau

Share ideas



**Cefnogi digwyddiadau
a chodi arian**

Support events
and fundraising



**Gwneud gwahaniaeth
i'n hysgol**

Make a difference
to our school



Rydym angen eich cefnogaeth!
We need your support!

*Pob syniad
yn cyfrif!*
*Every idea
matters!* 

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

DIWRNOD ANWYTHO

14 MEDI 2026

★ BLWYDDYN 12 A 13 ★

YMESTYN YN EHANGACH
REACHING WIDER

Diwrnod llawn
gweithdai **cyffrous**,
gweithio fel **tîm** a
syniadau newydd!

Artist
yn creu
portreadau
drwy'r dydd!



GWEITHIO FEL TÎM

Gweithio gyda
phobl eraill



CYFATHREBU

Rhannu syniadau
a gwranddo



CAEL HWYL

Gemau, heriau
a gweithgareddau



SYNIADAU NEWYDD

Darganfod, dysgu
a bod yn greadigol



SGILIAU'R DYFODOL

Paratoi ar gyfer
y cam nesaf

CINIO AM DDIM!

Fan Fwyd Halen a Pupur a
Hufen Iâ Llaeth Llanfair amser cinio!



INDUCTION DAY

14 SEPTEMBER 2026

★ YEAR 12 & 13 ★

A day full of
exciting workshops,
teamwork and
new ideas!

Artist
caricature artist
capturing **portraits**
all day!



WORK AS A TEAM

Work together
and support
each other



COMMUNICATE

Share ideas
and listen



HAVE FUN

Games, challenges
and activities



NEW IDEAS

Discover, learn
and be creative



SKILLS FOR THE FUTURE


Prepare for
the next step

FREE LUNCH!

Halen a Pupur Food Van and
Hufen Iâ Llaeth Llanfair at lunchtime!




Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont



Coffi a Chlona

Pwy? Rhieni BL.7

Cyfle i chi ymweld â ni ym Mro Pedr am: sgwrs anffurfiol,
cwrdd â'r tîm bugeiliol ac i ofyn unrhyw gwestiynau.



AMSER?
2.00 - 4.30

7N - 06.10.26
7D - 06.10.26
7P - 07.10.26
7G - 07.10.26




BLE?
NEUADD

Gorau chwarae CYD chwarae

wynr1@bropedr.ceredigion.sch.uk


Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont



Coffee + Chat

Who? Year 7 Parents

An opportunity for you to visit us in Bro Pedr for: an informal chat, meet the pastoral team and to ask any questions.



TIME?
2.00 - 4.30

7N - 06.10.26

7D - 06.10.26

7P - 07.10.26

7G - 07.10.26



WHERE?
HALL

Together, Stronger

wynr1@bropedr.ceredigion.sch.uk

EISTEDDFOD YR URDD BRO'R WENYNEN 2027



Mae rhestr swyddogol y testunau ar gyfer holl gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd 2027 bellach ar gael. Anogwn ddisgyblion, rhieni a staff i edrych ar y rhestr yn gynnar er mwyn dechrau paratoi ar gyfer y cystadlaethau. Mae cymryd rhan yn yr Eisteddfod yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau, magu hyder a mwynhau defnyddio'r Gymraeg.

Gweler y rhestr lawn yma:

<https://urdd.cymru/cy/rhestr-testunau/>

Pob lwc i bawb sy'n bwriadu cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2027!

The official list of set pieces for all Urdd Eisteddfod 2027 competitions is now available.

We encourage pupils, parents, and staff to view the list early so that they can start preparing for the competitions. Taking part in the Eisteddfod is a fantastic opportunity to develop skills, build confidence and enjoy using the Welsh language.

View the full list here:

<https://urdd.cymru/cy/rhestr-testunau/>

Good luck to everyone planning to compete in the Urdd Eisteddfod 2027!



SCAN HERE



DYDDIADAU PWYSIG IMPORTANT DATES



Urdd

EISTEDDFODAU RHANBARTH

CEREDIGION

Eisteddfodau

Dyddiad
Date

Lleoliad
Location

Eisteddfod Offerynnol

18-02-2027

Ysgol Dyffryn Aeron

Eisteddfod Cylch Aeron

23-02-2027

Ysgol Henry Richard,
Tregaron

Eisteddfod Cylch Ystwyth

25-02-2027

Ysgol Penglais,
Aberystwyth

Eisteddfod Cylch Teifi

02-03-2027

Ysgol Bro Pedr,
Llambod

Eisteddfod Dawns a Theatr

04-03-2027

Ysgol Bro Teifi

Eisteddfod Rhanbarth
Uwchradd

12-03-2027

Pafiliwn
Pontrhydfendigaid

Eisteddfod Rhanbarth
Cynradd

13-03-2027

Pafiliwn
Pontrhydfendigaid

Dyddiadau Cau Cofrestru Cenedlaethol/National Deadlines:

20/01/27 Dawns & Offerynnol / Dance and Instrumental
03/02/27 Cyst. Llwyfan & Maes / Stage Competitions
03/03/27 Gwaith Cartref / Homework
12/04/27 Celf, Dylunio a Technoleg / Art, Design & Technology



Urdd Ceredigion



@urddsirceredigion

urdd.cymru

CYFLE GWYCH EXCELLENT OPPORTUNITY



Ceredigion



Cwrs #SWOGIO

£65

Gwersyll Yr Urdd, Llangrannog 13 - 14 Tachwedd 2026

Cyrsiau

Cymorth Cyntaf
Hyllendid Bwyd
Amddiffyn Plant
Diogelu Data
Asesiad Risg

Pris yn cynnwys: llety, bwyd, cymwysterau, hyfforddiant a gofal staff
(Ddim yn cynnwys trafndiaeth)

I archebu lle ewch i:

<https://gweithgareddau.urdd.cymru/>

Tab - 'Teithiau a Chlybiau'

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â
mareddafydd@urdd.org



Sganiwch
yma



@urddsirceredigion



DYDDIAD PWYSIG
IMPORTANT DATE



Ceredigion



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Eisteddfod yr Urdd
Ceredigion 2029

CYFARFOD
SEFYDLU
PWYLLGORAU

21/09/2026

6yh

Theatr Felinfach

Croeso i bawb! / All
welcome!

Cofiwch enwebi yma

Remember to
nominate here





Adnabod person 16-18 oed sy eisiau dysgu Cymraeg?

- Cyrsiau rhad ac am ddim.
- Dosbarthiadau rhithiol.
- Gwersi awr o hyd am ddeg wythnos.
- Dechrau 7 Hydref 2024.

Dilynwch y côd QR i gofrestru:



Aged 16-18 and interested in learning Welsh?

- Free courses.
- Virtual classrooms.
- Hour-long lessons for ten weeks.
- Starting 7 October 2024.

Follow the QR code to sign up today:



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG

Dysgu
Learn



CWNSOLA YN YSGOL SCHOOL COUNSELLING

RHYWBETH YN EICH POENI? TEIMLO
FEL MAE PETHAU YN DECHRAU MYND
YN ORMOD? MAE EICH CWNSELYDD
YSGOL YMA I WRANDO.....

IS SOMETHING TROUBLING YOU? FEELING
LIKE THINGS ARE GETTING TOO MUCH
FOR YOU? YOUR SCHOOL COUNSELLOR
IS HERE TO LISTEN AND SUPPORT....

SUT I GAEL MYNEDIAD AT GWNSOLA HOW TO ACCESS COUNSELLING

Trafod gyda aelod o staff yn yr ysgol am atgyfeiriad

Discuss a referral with a member of staff



Llenwi ffurflen hynan atgyfeirio

Complete a Self-referral form

Sganio y llun côd yma gyda ffon symudol i hynan
atgyfeirio ar-lein.

Scan the picture of the QR code with a smart phone to
self-refer online



Gyru ebost i cwnsela@ceredigion.gov.uk

Send an email to cwnsela@ceredigion.gov.uk





DEWCH I YMUNO Â'N SESIYNAU AML-
SGILIAU HWYLIOG A CHYNHWYSOL!

FFLAMINGOS

CLWB CHWARAEON ANABLEDD

POB DYDD MERCHER

4:45 - 5:45 YP

AWR O HWYL I BLANT A PHOBL IFANC
4 I 17 OED!

AM DDIM

CANOLFAN LLES, LLAMBED

RHES FFYNNONBEDR, LLAMBED, SA48 7BX

(01570) 422552



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CEREDIGION
ACTIF





**COME AND JOIN OUR FUN AND
INCLUSIVE MULTI-SKILLS SESSIONS!**

FLAMINGOS

DISABILITY SPORTS CLUB

EVERY WEDNESDAY

4:45 - 5:45 PM

**AN HOUR OF FUN FOR CHILDREN AND
YOUNG PEOPLE AGED 4 TO 17!**

FREE

**WELLBEING CENTRE, LAMPETER
PETERWELL TERRACE, LAMPETER, SA48 7BX
(01570) 422552**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**CEREDIGION
ACTIF**

Noson Gymorth TGAU

MAE RÔL Y CARTREF YN BWYSIG!

Mae ymchwil yn dangos bod disgyblion yn llawer mwy tebygol o lwyddo yn yr ysgol pan mae'r cartref yn rhan o'r daith addysg.

Beth i ddisgwyl?

- Pwysigrwydd TGAU
- Sgiliau astudio effeithiol
- Pwysigrwydd lles
- Bywyd y tu hwnt i TGAU

Dyfodol
disglair

At sylw
rhieni/gwarcheidwaid
Blwyddyn 11



Ymunwch â ni yn
Neuadd yr Ysgol



Nos Fawrth
22ain o Fedi 2026
5:00yh



gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

GCSE Support Evening

**SUPPORT FROM HOME IS
IMPORTANT!**

Research has proven that support from the home can improve pupil attainment in school.

A brighter future

For the attention of **Year 11** parents/guardians

What to expect?

- The importance of GCSEs
- Effective Study Skills
- The importance of Wellbeing
- Life beyond GCSEs



Join us in the
School Hall



Tuesday
22nd September 2026
5:00pm



gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Noson Llwybrau Llwyddiannus **Blwyddyn 12**

Successful Pathways

Year 12 Information Evening


Gweledigaeth
Vision


Ymdrech
Effort
Systemau
Systems


Ymarfer
Practice
Agwedd
Attitude



**Disgwyliadau'r
Chwched**

Sixth Form
Expectations



**Cyfleoedd
yn y Chwched**

Opportunities
in the Sixth Form



**Gwybodaeth
am gefnogaeth**

How to access
support



Nos lau
24 Medi 2026

Thursday
24 September 2026



5 o'r gloch

5pm



Neuadd yr Ysgol

School Hall

Clwb Cymraeg

Gêmau hwyl!

Croeso cynnes i flynyddoedd 7-9

Pasys cinio cynnar ar gael yn
ystafell 7 amser egwyl

Dydd Mawrth, Medi 15fed
1:00 y.p. yn y stiwdio ddrama

Dewch yn llu am sbort!



SEREN YR WYTHNOS

STAR OF THE WEEK




SEREN YR WYTHNOS STAR OF THE WEEK



CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS



CYMRO/CYMRAES YR WYTHNOS



COFIWCH/REMEMBER

DYDDIAD/DATE	DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES	Blwyddyn/Year
14.9.26	Diwrnod Anwytho'r Chweched 6 th Form Induction Day	12 & 13
15.9.26	Noson Wybodaeth Rhieni/Gofalwyr Newydd ar Teams New Parents/Carers Information Evening @ 5pm	Pawb All
16-18.9.26	Taith Breswyl Llangrannog Llangrannog Residential Trip	7
21.9.26	Taith 12/13 Ffiseg - Prifysgol Abertawe Yr 12/13 Swansea University Physics Masterclass Trip	12/13
22.9.26	Gweithdy Cyfansoddwyr Ifanc Dyfed Dyfed Young Composers' Workshop	
22.9.26	Noson Gymorth Blwyddyn 11 am 5yp yn ein Neuadd Year 11 Support Evening @ 5pm in our Hall	11
23.9.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Bro Teifi Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Bro Teifi	7-13
24.9.26	Noson Gymorth Blwyddyn 12 am 5yp yn ein Neuadd Year 12 Support Evening @ 5pm in our Hall	12
25.9.26	Twrnamaint Pêl Droed Ceredigion Football Tournament	
29.9.26	Noson Agored Blwyddyn 5 a 6 Year 5 and 6 Open Evening	5 & 6
30.9.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Penweddig Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Penweddig	7-13
2.9.26	Twrnamaint Rygbi Blwyddyn 9 Aberaeron Year 9 Rugby Tournament	9
6.10.26	Coffi a Chlonc Blwyddyn 7 / Year 7 Chat and Coffee	7
7.10.26	Coffi a Chlonc Blwyddyn 7 / Year 7 Chat and Coffee	7
7.10.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Aberteifi Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Aberteifi	7-13
8-9.10.26	Taith Amaeth / Agriculture Trip	11
9.10.26	Twrnamaint Rygbi Blwyddyn 7 Year 7 Rugby Tournament	7
13.10.26	Pêl Droed Cymysg yr Urdd Blwyddyn 3 a 4 Year 3 and 4 Mixed Football	3 & 4
14.10.26	Gemau Chwaraeon yn erbyn Henry Richard Rugby, Netball and Hockey Fixtures v Henry Richard	7-11
15.10.26	Diwrnod Paratoi'r Ffordd (Cyfweiliadau Ffug) Blwyddyn 11 Year 11 Paving the Way (Mock Interview Day)	11

IMPORTANT DATES

DYDDIADAU PWYSIG



SGWRS GYDA'R PENNAETH HEADTEACHER'S SURGERY

Bob dydd Mawrth rhwng 3:30yp a 5:30yp

Derbynfa Campws Uwchradd

NID oes angen apwyntiad.

Every Tuesday between 3:30pm and 5:30pm

Secondary Campus Reception

No appointment necessary.



COFIWCH/REMEMBER



Ceisiadau i fforymau'r Senedd erbyn dydd Gwener, 18fed o Fedi.

Senedd Forum applications by Friday, 18th September

